

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn yr  
**Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 2 Mawrth 2020 am 7:45p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Gavin Harris, Ken Hawkins, Ian Lewney, Jabez Oakes,  
Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

**60. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Stephen Beach a John Wynne Hughes.

**61. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

**62. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020 yn gywir.

**63. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**64. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniadau cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:  
02/2019/1073 – Bron Parc, Galltegfafa – Dymchwel adeiladau sy'n bodoli ac adeilad storfa offer amaethyddol a sied trin defaid – Caniatawyd  
02/2019/1086 – Dolwen, 24 Parc y Castell, Rhuthun – Adeiladu estyniad deulawr ar du cefn yr annedd – Caniatawyd  
13/2019/1070 – Tyddyn Cook, Llanfwrog – Dymchwel yr annedd sy'n bodoli ac adeiladu annedd newydd, tirlunio a gwaith cysylltiedig

**65. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd y Pwyllgor y cais a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD:** *nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau isod.*

**02/2020/0057 – Hafan, Ffordd Dinbych, Rhuthun**

Adeiladu estyniad deulawr gyda balcony yng nghefn yr annedd

**02/2019/0951 – The Gallery, 1-3 Heol y Parc, Rhuthun**

Newid defnydd swyddfeydd (A1-A2) i Stiwdio Penseiri (B1), yn cynnwys addasiadau mewnol ac allanol

*Mynegodd yr aelodau bryderon am faint mawr yr arwyddion a ddangosir yn y lluniau.*

**02/2020/0071 – 92 Erw Goch, Rhuthun**

Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd

**02/2019/1048 – Coedwig Castell Rhuthun, Rhuthun**

Gwaith i goed sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed Rhif 21 1963 cyn Gyngor Sir Ddinbych i dynnu canghennau sy'n achosi rhwystr/perylgl i ddefnyddwyr cefnffordd yr o A494

Roedd yr aelodau'n dymuno cyflwyno'r sylwadau a ganlyn ynghylch y ceisiadau isod:

**02/2020/0056 – 6 Stryd y Farchnad, Rhuthun**

Adeiladu estyniad i'r annedd

*Dywedodd yr aelodau bod maint yr estyniad yn rhy fawr ar gyfer y safle, ac nad yw'n unol â pholisi cynllunio Cyngor Sir Ddinbych. Byddai'n cael effaith niweidiol ar eiddo cyfagos.*

Adeiladu 77 o anheddau fforddiadwy ynghyd â mynediad, manau agored a gwaith cysylltiedig.

*Dymuna'r aelodau gael sicrwydd ynghylch y risg llifogydd ac eglurhad ynghylch y mesurau atal llifogydd a phwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r elfennau atal llifogydd.*

**02/2020/0123 – Tir nesaf at 73A Erw Goch, Rhuthun**

Codi annedd, ffurfio mynediad a gwaith cysylltiedig

*Roedd yr aelodau'n teimlo bod hyn yn cynrychioli datblygu amhriodol ac y byddai'n*

*gorddatblygu'r safle. Byddai'n arwain at ddiffyg gwagle amwynder ar gyfer yr annedd newydd.*

**66. YMGYNGHORI CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO**

Roedd yr aelodau wedi derbyn hysbysiad ynghylch ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio o ran cynigion ar gyfer Sgubor Llanerchgron, Pwllglas.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r wybodaeth, ond peidio â gwneud sylwadau gan fod y safle y tu allan i ffiniau ward Rhuthun.*

**67. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-2033 – YMGYNGHORI YNGHYLCH Y SAFLEOEDD YMGEISOL YCHWANEGOL**

Derbyniodd yr aelodau gopi o lythyr yn diolch am ymateb i'r ymgynghoriad uchod.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r llythyr diolch.*

**68. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 6 Ebrill 2020 am 7.45pm.*